Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Is-ddeddfwriaeth: 9 Tachwedd 2005

Fe ystyriodd y Pwyllgor yr eitem ganlynol o is-ddeddfwriaeth ddydd Mercher 9 Tachwedd 2005. Cymerwyd cofnod gair am air a gellir ei weld ar Wefan y Pwyllgor.

Rheoliadau Grantiau a Benthyciadau Dysgu'r Cynulliad (Addysg Uwch) (Cymru) 2006 (ELL-16-05)

Darparodd y Gweinidog gopi o'r rheoliadau drafft, memorandwm esbonio, gwerthusiad rheoleiddio a rhestr o'r rhai a ymgynghorwyd â hwy.

Amlinellodd y Rheoliadau'r trefniadau cefnogi myfyrwyr ar gyfer myfyrwyr oedd yn arferol yn byw yng Nghymru yn y flwyddyn academaidd 2006/07, a bydd yn galluogi'r Cynulliad Cenedlaethol i wobrwyo grantiau a benthyciadau i fyfyrwyr cymwys. Yr oedd y Rheoliadau yn nodi'r meini prawf cymhwyster ar gyfer ymgeisio am a chael cymorth i fyfyrwyr, y grantiau a'r benthyciadau sydd ar gael (gan gynnwys darpariaeth llawn a rhan amser, a chymorth ychwanegol arbennig), dulliau asesu ariannol a dulliau talu a materion perthnasol.

Trafodaeth

Gwnaethpwyd y pwyntiau canlynol yn ystod y drafodaeth:

- Yr oedd y Cynulliad eisoes wedi cymeradwyo Gorchymyn y Ddeddf Addysg Uwch 2004 (Cychwyn Rhif 2 a Darpariaeth Drosiannol) (Cymru) 2005, sy'n gallu gwneud y Cynulliad yn gyfrifol am gyflwyno cymorth i fyfyrwyr am y flwyddyn academaidd 2006-07.
- Bydd y rheoliadau yn llywodraethu blwyddyn gyntaf datganoli cymorth i fyfyrwyr yng Nghymru. Mae hon yn flwyddyn drosiannol pan fydd newidiadau i'w gweld, yn fwyaf nodedig bydd grant dysgu uwch y Cynulliad o hyd at £2,700 wedi'i dargedu ar gyfer myfyrwyr o gartrefi incwm is.
- Bydd y pecyn cymorth i fyfyrwyr ar gyfer blwyddyn academaidd 2007-08 yn cyflwyno newidiadau pellach, yn dilyn cytundeb gan bob plaid ar 22 Mehefin. Fodd bynnag, mae hynny ar gyfer rheoliadau pellach a fydd yn cael eu cyflwyno ar gyfer 2007-08.
- Mae nifer o becynnau sy'n gysylltiedig â ffioedd dysgu, benthyciadau, grantiau, grantiau ar gyfer benthyciadau a grantiau ar gyfer cynnal a chadw. Mae lefel ychydig yn wahanol i ffioedd dysgu mewn cysylltiad â phecynnau gwahanol, ac i'r cyfuniad o becynnau. Mae'r rhain wedi'u hamlinellu yn y rheoliadau. Mae'r rheoliadau allweddol yn 20,28 a 29.
- Yr oedd yn bwysig fod myfyrwyr yn cael gwybod sut i gyrraedd gwybodaeth am y pecynnau cymorth. Fe all Partneriaethau Cymunedau'n Gyntaf helpu yn y broses hon.

Y Gwasanaeth Pwyllgorau

- Rhaid i fyfyrwyr sy'n ymgeisio am le mewn prifysgolion a sefydliadau addysg uwch wneud hynny trwy'r Gwasanaeth Derbyn i Brifysgolion a Cholegau. Bydd y gwasanaeth yn hysbysu myfyrwyr am yr holl arian sydd ar gael a bydd yn eu cyfeirio i'r man cywir i wneud ceisiadau.
- Bydd y grantiau a'r benthyciadau yn cael eu gweinyddu gan y system Cyllid Myfyrwyr Cymru newydd, sy'n bartneriaeth rhwng y Cynulliad, awdurdodau addysg lleol a'r Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr Cyf. Bydd myfyrwyr yn gallu ymgeisio ar-lein gan ddefnyddio gwefan Cyllid Myfyrwyr Cymru.
- Cafodd y gwahanol grantiau a benthyciadau eu hasesu yn erbyn nifer o lefelau gwahanol o incwm teuluoedd. Gofynnwyd i'r Gweinidog i ystyried tybed a ellid cyflwyno trefniadau mwy syml.
- Gofynnwyd i'r Gweinidog a fyddai unrhyw broblemau'n codi oherwydd y gwahaniaeth yn y cymorth sydd ar gael i fyfyrwyr o Gymru sy'n astudio mewn prifysgolion Cymreig a'r rheini sy'n dewis astudio mewn prifysgolion yn Lloegr.

Fel ymateb, fe wnaeth y Gweinidog y pwyntiau canlynol:

- Yr oedd nifer o ffactorau wedi arwain at lefelau gwahanol o gymhwyster i grantiau a benthyciadau, er enghraifft yr oedd grant dysgu gynt y Cynulliad yn ystyried lefel incwm benodol ond yr oedd y grant addysg uwch newydd wedi'i gyflwyno ar lefel uwch. Yr oedd elfennau grant y DU a throthwyau trethi hefyd yn cael effaith.
- Fe fyddai cyfleoedd i edrych ar y materion hyn cyn cyflwyno'r rheoliadau o 2007 ymlaen.
- Fod y rheoliadau'n cael eu cyflwyno ar y sicrwydd fod pobl yn cael eu cefnogi ar y lefel gyfredol eleni.

Penderfyniad y Pwyllgor

Ni chynigiwyd unrhyw newidiadau ac argymhellodd y Pwyllgor gymeradwyo'r rheoliadau drafft.



Peter Black AC
Cadeirydd y Pwyllgor